*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 994 (Cy.143)

# TIR COMIN, CYMRU

## Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *2 Ebrill 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mai 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan erthygl 19(1)(a) a (d) o Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Mai 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ffurflen" ( "*the Form*") yw Ffurflen 21 fel y cafodd ei hamnewid yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966(**3**).

**Amnewid ffi newydd**

**2.** Yn Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau—

(a) yn y golofn gyntaf, yn lle'r geiriau "ten pounds" rhodder y geiriau "twenty pounds"; a

(b) yn yr ail golofn, yn lle'r symiau "£6.00" a "50p" rhodder y symiau "£14.00" a "£1.00" yn eu trefn.

(**1**) 1965 p.64. *Gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 22(1).
(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1966/1471; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1970/1996, 1980/1195 a 1989/2167.

**Diwygio'r Ffurflen**

**3.** Yn y rhan o'r Ffurflen o dan y pennawd "FEES", yn lle'r symiau "£6.00", "50p" a "£10.00", rhodder y symiau "£14.00", "£1.00" a "£20.00" yn eu trefn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

2 Ebrill 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer cynyddu'r ffioedd a ragnodwyd yn Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471), a gynyddwyd o'r blaen gan Reoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1980 (O.S. 1980/1195) a Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1989 (O.S. 1989/2167)), am chwiliadau yng Nghofrestrau Tir Comin a Meysydd y Trefi a'r Pentrefi ac am ddarparu copïau wedi'u hardystio o gofnodion yn y Cofrestrau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r symiau a bennir yn Nhabl y Ffioedd sydd ar ddiwedd y ffurflen yn yr Atodlen i O.S. 1989/2167 yn unol â hynny.